**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru@SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

30 Ebrill 2024

Annwyl Eluned,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tybaco a Fêps

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 16 Ebrill 2024 at y Llywydd ynghylch y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol uchod.

Yn eich llythyr, rydych yn dweud bod y Bil yn cael ei gefnogi ar y cyd gan bedair llywodraeth y DU a'i fod, i raddau helaeth, o fewn cymhwysedd y Senedd, ac rydych yn ychwanegu'r canlynol:

> *"O ganlyniad i ddatblygiad cyflym y Bil, a chymhlethdod ac ehangder y darpariaethau, nid yw wedi bod yn bosibl i'm swyddogion gwblhau'r dadansoddiad manwl sydd ei angen o fewn y terfyn pythefnos arferol a nodir yn y Rheolau Sefydlog."*

O gofio bod y bwriad i ddeddfu wedi'i gyhoeddi ar 4 Hydref 2023 a bod y Bil yn cael ei gefnogi gan bedair llywodraeth y DU, nid ydym yn glir pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu cydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Senedd wedi i'r Bil gael ei gyflwyno ar 20 Mawrth 2024.

Byddem yn ddiolchgar felly pe gallech ysgrifennu atom i ddisgrifio'r trafodaethau rhynglywodraethol a gafwyd mewn perthynas â'r Bil ac i ddweud pryd y cafodd y trafodaethau hynny eu cynnal, gan gyfeirio at unrhyw gysylltiadau rhwng swyddogion a rhwng Gweinidogion.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol deall a yw *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* yn ffactor dylanwadol yn y penderfyniad i'r ddeddfwriaeth gynnwys y pedair llywodraeth. Byddem yn ddiolchgar pe gallai'ch disgrifiad o'r trafodaethau rhynglywodraethol ymdrin ag unrhyw ystyriaeth o effaith Deddf 2020, pe bai'r llywodraethau yn deddfu ar wahân.

Rydym yn cydnabod bod Rheol Sefydlog 29.3 yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodol gael ei chynnwys yn y memorandwm yn ymdrin â’r pwerau dirprwyedig a roddir i Weinidogion Cymru o dan y Bil. O ystyried bod pryderon ynghylch natur y pwerau hyn, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi’r wybodaeth a ganlyn i ni:

- pa drafodaethau a gawsoch â Llywodraeth y DU ynghylch lefel y manylion i'w rhoi ar wyneb y Bil;
- a wnaethoch chi ofyn i unrhyw bwerau gael eu dirprwyo i Weinidogion Cymru ac, os felly, a oeddech chi'n gallu dylanwadu ar gwmpas y pwerau hynny;
- a oeddech yn gallu dylanwadu ar y weithdrefn berthnasol ar gyfer pob pŵer dirprwyedig.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 16 Mai 2024.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Llywydd ac at Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir

S. Murphy

Sarah Murphy
Cadeirydd